

PWYLLGOR PARCIAU – CYLCH GORCHWYL
Mabwysiadwyd 20.03.19, Adolygwyd 15.06.22

Pwrpas y Pwyllgor

1. Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Parciau yn ei wneud yn gyfrifol am fonitro, rheoli a datblygu Parc Mwd a'r Parc Chwarae.
2. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar y polisiau a'r gweithredoedd ar gyfer sicrhau arferion gweithio diogel wrth gynnal a chadw'r Parciau.
3. Bydd y Pwyllgor yn cynnal Asesidadau Risg ar y parciau yn rheolaidd.
4. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Iechyd a Diogelwch cyfredol sy'n ymwneud gyda'r parciau.
5. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod yr holl offer chwarae yn cael ei gynnal a'i gadw a'i archwilio yn rheolaidd gan gofnodi hynny.
6. Nid oes gan y Pwyllgor Parciau rym i wneud penderfyniadau ond yn hytrach i gyflwyno argymhellion ar gyfer sêl bendith Cyngor Cymuned Y Fali.
7. Y Clerc/Swyddog Ariannal â Chyfrifoldeb sy'n gyfrifol am weinyddiaeth briodol o waith y Cyngor Cymuned ac yn gyfrifol am gadw unrhyw ddogfennau neu gofnodion angenrheidiol i sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu ei ddyletswyddau yn effeithiol.
8. Cynhelir tri cyfarfod y flwyddyn, y cyntaf i'w gynnal y mis ar ôl cyfarfod blynyddol cyffredinol y cyngor cymuned (etholiadau).
9. Cyfyngir y nifer o aelodau i bedwar Cynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethu yn effeithiol o Mai 2023. Bydd Cadeirydd cyfredol y Cyngor Cymuned yn aelodau awtomatig o'r Pwyllgor. Gall pob aelod presennol arall o'r Cyngor ofyn am gael eu hapwyntio ar y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cyfethol cynrychiolydd o un o brif grwpiau chwaraeon y pentref. Gellir cyfethol aelodau ychwanegol i gynrychioli diddordebau cymunedol eraill yn y parciau.
10. Bydd angen cworwm o dri ar gyfer cynnal gwaith y Pwyllgor, a Chadeirydd y Pwyllgor fydd un ohonynt neu os na fydd yn gallu bod yn bresennol, person a enwebwyd ganddo ef/hi.
11. Clerc y Cyngor fydd Ysgrifennydd y Pwyllgor. Bydd y Clerc yn cofnodi gweithrediadau a phenderfyniadau pob cyfarfod o'r Pwyllgor gan gynnwys cofnodi enwau pawb a oedd yn bresennol neu wrth law.
12. Bydd cofnodion cyfarfodydd o'r Pwyllgor yn cael eu dosbarthu yn amserol i bob aelod o'r Pwyllgor a chânt eu hystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor Cymuned
13. Cyfyngir y materion i'w trafod yn y cyfarfod i'r rhai sydd wedi eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod. Dosberthir yr agenda ymlaen llaw i holl aelodau'r Pwyllgor trwy e-bost, gan roi tri diwrnod clir o rybudd a chan ddatgan lleoliad, amser a dyddiad y cyfarfod.
14. Caiff aelodaeth Pwyllgor y Parciau ei adolygu trwy bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned y Fali ynghyd â'r Cylch Gorchwyl hwn. Etholir Cadeirydd y Pwyllgor Parciau yn y cyfarfod hwn hefyd.
15. Ym mis Medi bob blwyddyn, bydd y pwyllgor yn adolygu ei gyllideb blynyddol a darparu adroddiad i'r Cyngor llawn yn amlinellu y gwariant a wnaed a'r hyn a ragdybir ynghyd â'i gynigion a'i argymhellion ar gyfer y flwyddyn i ddod, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Cyllid i bennu cyllideb y Cyngor Cymuned.
16. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod cytundebau ar rent neu ar brydlles yn bodoli ar gyfer pob defnyddiwr o'r cyfleusterau a'u bod yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.
17. Bydd y Pwyllgor yn darparu cynllun rheoli ar gyfer yr holl gyfleusterau am gyfnod o 10 mlynedd.
18. Bydd y Pwyllgor yn ymgeisio am arian grant gan reoli prosiectau a ariennir gan rantiau i wella cyfleusterau cymunedol yn yr ardal.
19. Bydd angen sêl bendith ffurfiol y Cyngor llawn ar gyfer unrhyw wariant.
20. Ym mis Mawrth bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol a fydd yn manylu y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol a'u cyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn.